Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a drafodwyd ar 19 Mai 2025

Mehefin 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Mae'r Pwyllgor yn trafod effaith cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU, o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010* (Deddf 2010), ar Gymru. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Wrth drafod cytundeb rhyngwladol, rydym yn ystyried:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 19 Mai 2025,[1] gwnaethom ystyried dau gytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- Diwygiadau i'r Confensiwn Llafur Rhyngwladol ar Gydnabod Amgylchedd Gwaith Diogel ac Iach fel Egwyddor Sylfaenol; a
- Y DU/Ffrainc: Cytundeb ar Ofynion Diogelwch a Gallu Rhyngweithredu yng Nghysylltiad Sefydlog y Sianel.

**6.** Gwnaethom gytuno i gymryd rhagor o gamau gweithredu mewn perthynas ag un o'r cytundebau hyn. Mae manylion pob un o'r cytundebau, a'r camau gweithredu a gymerwyd gennym, wedi'u nodi isod.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 19 Mai 2025

# 2. Cytundebau sydd angen rhagor o gamau gweithredu

**Diwygiadau i'r Confensiwn Llafur Rhyngwladol ar Gydnabod Amgylchedd Gwaith Diogel ac Iach fel Egwyddor Sylfaenol**

**7.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 22 Ebrill 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 4 Mehefin 2025.

**8.** Diben y cytundeb yw cyflwyno diwygiadau i Gonfensiynau ac offerynnau eraill y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Mae'r diwygiadau hyn yn adlewyrchu cynnwys yr hawl i amgylchedd gwaith diogel ac iach yn fframwaith y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ynghylch egwyddorion a hawliau sylfaenol yn y gwaith ym mis Mehefin 2022.

**9.** Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yw asiantaeth arbenigol y Cenhedloedd Unedig sy'n hyrwyddo hawliau a gydnabyddir yn rhyngwladol i weithwyr, yn bennaf drwy Gonfensiynau sy'n gyfreithiol rwymol ar y gwledydd hynny sy'n eu cadarnhau, ac sy'n monitro'r ffordd y mae'r hawliau hynny'n cael eu cymhwyso.

**10.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd i weithredu'r cytundeb.[2]

**11.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y cytundeb hwn yn ymwneud â materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl: mae iechyd a diogelwch yn y gwaith a chyflogaeth wedi'u datganoli yng Ngogledd Iwerddon, ac mae iechyd a diogelwch yn feysydd a gedwir yn ôl yng Nghymru a'r Alban.[3]

**12.** Mae hefyd yn datgan bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar ddrafftio'r cytundeb, ac wrth lunio'r Memorandwm

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Confensiwn Llafur Rhyngwladol Rhif 191 ynghylch Diwygiadau i'r Safonau sy'n Ganlyniadol i Gydnabod Amgylchedd Gwaith Diogel ac Iach fel Egwyddor Sylfaenol, 22 Ebrill 2025, paragraff 5
[3] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Confensiwn Llafur Rhyngwladol Rhif 191 ynghylch Diwygiadau i'r Safonau sy'n Ganlyniadol i Gydnabod Amgylchedd Gwaith Diogel ac Iach fel Egwyddor Sylfaenol, 22 Ebrill 2025, paragraff 10

Esboniadol, a bod pob un o'r llywodraethau datganoledig yn fodlon â phenderfyniad y DU i gadarnhau'r cytundeb.[4]

**13.** Er bod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yng Nghymru, gwnaethom gytuno i hysbysu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am y cytundeb, yng ngoleuni ei gylch gwaith ran yr economi, yn ogystal â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, yng ngoleuni ei gylch gwaith o ran gwaith teg a hawliau dynol.

[4] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Confensiwn Llafur Rhyngwladol Rhif 191 ynghylch Diwygiadau i'r Safonau sy'n Ganlyniadol i Gydnabod Amgylchedd Gwaith Diogel ac Iach fel Egwyddor Sylfaenol, 22 Ebrill 2025, paragraff 10

# 3. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

**Y DU/Ffrainc: Cytundeb ar Ofynion Diogelwch a Gallu Rhyngweithredu yng Nghysylltiad Sefydlog y Sianel**

**15.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 25 Ebrill 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 10 Mehefin 2025.

**16.** Diben y cytundeb hwn yw sefydlu fframwaith llywodraethu a rheoleiddio newydd ar gyfer Cysylltiad Sefydlog y Sianel ym meysydd diogelwch rheilffyrdd, rhyngweithredu ac ymchwilio i ddamweiniau rheilffyrdd.

**17.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod Llywodraeth y DU yn disgwyl gwneud rheoliadau, drwy arfer y pwerau a roddir o dan adran 11 o *Ddeddf Twnnel y Sianel 1987*, yn ddiweddarach eleni i weithredu'r cytundeb hwn.[5]

**18.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig ar wahanol adegau drwy gydol y broses o drafod y cytundeb a'r broses ddrafftio. Mae Llywodraeth y DU yn cadarnhau nad yw'r llywodraethau datganoledig wedi codi unrhyw wrthwynebiadau i'r newidiadau, gan nad yw'n effeithio ar y system reilffyrdd yn eu priod diriogaethau.[6]

**19.** Gan fod trafnidiaeth rheilffyrdd yn fater a gedwir yn ôl, fel y darperir gan baragraff 117 o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006), ac mae pwnc *Deddf Twnnel y Sianel 1987* yn cael ei gadw'n ôl yn benodol gan baragraff 118 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006, gwnaethom gytuno i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

[5] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Ffrainc: Cytundeb ar Ofynion Diogelwch a Gallu Rhyngweithredu yng Nghysylltiad Sefydlog y Sianel, 25 Ebrill 2025, paragraff 5
[6] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Ffrainc: Cytundeb ar Ofynion Diogelwch a Gallu Rhyngweithredu yng Nghysylltiad Sefydlog y Sianel, 25 Ebrill 2025, paragraff 10